Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu er mwyn Llywio Ymateb ac Adferiad Iechyd Cyhoeddus COVID-19 Cymru

## Calendr Cryno
## Ebrill 2020 – Mawrth 2021

DECHRAU YMA

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

# Gwybodaeth Gefndir: Pandemig COVID-19

- Ar **31ain Rhagfyr 2019**, hysbyswyd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) am glwstwr o achosion o niwmonia o achos anhysbys a ganfuwyd yn Wuhan, China.

- Ar **12fed Ionawr 2020**, cyhoeddwyd bod coronafeirws newydd wedi'i nodi mewn samplau a gafwyd o achosion a bod dadansoddiad cychwynnol o ddilyniannau genetig y feirws yn awgrymu mai dyma oedd y rheswm dros yr achos. Cyfeirir at y feirws hwn fel SARS-CoV-2, a'r afiechyd cysylltiedig fel COVID-19. Trosglwyddir SARS-CoV-2 yn bennaf rhwng pobl trwy lwybrau anadlol (defnyn ac aerosol) a chysylltiadau. Mae'r risg trosglwyddo ar ei uchaf lle mae pobl yn agos (o fewn 2 fetr).

- Ar **11eg Mawrth 2020**, gwnaeth WHO yr asesiad y gallai COVID-19 gael ei nodweddu fel pandemig.

- Ar **4ydd Ebrill 2020**, adroddodd WHO fod dros filiwn o achosion o COVID-19 wedi'u cadarnhau ledled y byd, cynnydd o fwy na deg gwaith mewn llai na mis.

- Ym **mis Tachwedd 2020**, cyhoeddodd WHO adroddiad Newyddion Achos o Glefyd ar y straen amrywiolyn cysylltiedig â mincod SARS-CoV-2 yn Nenmarc. Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg o ymateb iechyd y cyhoedd Denmarc, ac asesiad a chyngor risg WHO.

- Ym **mis Rhagfyr 2020**, adroddodd y Deyrnas Unedig (DU) amrywiad SARS-CoV-2 i WHO. Cyfeiriodd y DU at yr amrywiad fel SARS-CoV-2 VOC 202012/01 (Amrywiad yn achosi Pryder, blwyddyn 2020, mis 12, amrywiad 01). Cyhoeddodd WHO adroddiad Newyddion Achos o Glefyd ar amrywiadau SARS-CoV-2, yn ymdrin ag adroddiadau o Ddenmarc, y DU a De Affrica. Roedd yn manylu ar ymateb iechyd y cyhoedd, asesiad risg WHO a chyngor WHO.

- Ar **31ain Rhagfyr 2020**, cyhoeddodd WHO ei ddilysiad defnydd brys cyntaf ar gyfer brechlyn COVID-19 a phwysleisiodd yr angen am fynediad byd-eang teg.

- Erbyn **Ionawr 2021**, cyfarfu Grŵp Cynghori Strategol WHO Arbenigwyr ar Imiwneiddio (SAGE) i adolygu data'r brechlyn ar gyfer y brechlyn Pfizer/BioNTech a llunio argymhellion polisi ar y ffordd orau o'i ddefnyddio. Cyhoeddodd COVAX, y fenter fyd-eang i sicrhau mynediad cyflym a theg i frechlynnau COVID-19 ar gyfer pob gwlad, eu bod wedi llofnodi cytundeb prynu ymlaen llaw ar gyfer hyd at 40 miliwn dos o'r brechlyn Pfizer-BioNTech.

- Erbyn **Ebrill 2021**, roedd COVAX yn dosbarthu brechlynnau i achub bywyd i dros 100 o economïau, 42 diwrnod ar ôl y cyflenwad rhyngwladol cyntaf. Erbyn heddiw, mae COVAX wedi dosbarthu mwy na 38 miliwn dos ar draws chwe chyfandir.

2019 › Dec · Jan · 2020 › · Mar · Apr · Nov · Dec · Jan · 2021 › · Apr

**Troednodiadau:**

https://www.gov.uk/government/publications/wuhan-novel-coronavirus-background-information/wuhan-novel-coronavirus-epidemiology-virology-and-clinical-features
https://www.gov.uk/government/publications/wuhan-novel-coronavirus-background-information
https://www.who.int/emergencies/diseases/novel-coronavirus-2019/interactive-timeline#

# Adroddiadau Sganio'r Gorwel Rhyngwladol

Mae natur ac ansicrwydd pandemig COVID-19 sy'n esblygu'n gyflym wedi arwain at heriau digynsail i systemau iechyd ac wedi achosi effeithiau cymdeithasol, economaidd a llesiant sylweddol. Er mwyn deall, lliniaru a mynd i'r afael â'r rhain, mae gweithred iechyd y cyhoedd gydweithredol, amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol ar draws pob lefel lywodraethu, sector a rhanddeiliad, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae dysgu parhaus ac amserol o brofiad gwledydd eraill a'r dystiolaeth a'r arweiniad sy'n dod i'r amlwg, a ddarperir gan sefydliadau rhyngwladol allweddol, yn hanfodol i lywio gweithredoedd, dulliau gweithredu a phrosesau gwneud penderfyniadau o'r fath yng Nghymru.

Cychwynnwyd y ffrwd waith Sganio'r Gorwel a Dysgu  Rhyngwladol gan Ganolfan Gydweithredu ar Fuddsoddiad mewn Iechyd a Llesiant Sefydliad Iechyd y Byd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, i lywio'r ymateb iechyd y cyhoedd COVID-19 oedd yn esblygu a chynlluniau adfer yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar dystiolaeth, profiad, a mesurau rhyngwladol COVID-19 yn ogystal â dulliau trosglwyddo ac adfer, er mwyn deall ac archwilio atebion ar gyfer mynd i'r afael â'r effeithiau iechyd, llesiant, cymdeithasol ac economaidd parhaus a'r rhai sy'n dod i'r amlwg (niwed a manteision posibl).

Mae'r gwaith hwn wedi'i alinio â Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru ac yn bwydo iddi, yn enwedig i'r Grŵp Ymgynghori Technegol ar Iechyd Rhyngwladol, ac i Reolaeth Aur Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhan o ddull systematig ehangach gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o gasglu gwybodaeth i lywio gweithredu polisi cynhwysfawr, cydlynol, cynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb a chynllun tymor iechyd Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y llif gwaith felly yw cyfrannu at Gymru iachach, mwy cyfartal, cydnerth, llewyrchus a chyfrifol yn fyd-eang. Mae'n bwysig nodi y gall yr adroddiadau amrywio o ran ffocws a chwmpas, yn dibynnu ar sefyllfa esblygol COVID-19 yn ogystal ag anghenion iechyd y cyhoedd a pholisi. Mae adroddiadau ar gael yn gyhoeddus yn ystorfa WHO CC.

Mae'r pynciau a drafodir yn yr adroddiadau yn gysylltiedig â'r pedwar niwed cysylltiedig â COVID-19 a nodwyd gan fframwaith adfer Llywodraethau Cymru:

- Niwed o farwolaeth a marwoldeb sy'n deillio yn uniongyrchol o haint SARS-CoV2.
- Niwed o orlethu capasiti'r GIG sy'n effeithio ar unwaith ar weithdrefnau triniaeth eraill a chleifion â materion iechyd eraill o ganlyniad i drosglwyddo adnoddau meddygol i gleifion COVID. Hefyd, mae hyn yn cynnwys trosglwyddo COVID i gleifion neu staff eraill yn amgylchedd yr ysbyty.
- Niwed o'r marwoldeb a'r marwolaethau a ragwelir sy'n deillio o salwch a chlefydau nad ydynt yn COVID o ganlyniad i beidio â'u canfod neu beidio â'u trin, h.y. darpar gleifion a chleifion presennol nad ydynt yn cyflwyno'u hunain ar gyfer ymchwilio neu driniaeth, ee diagnosis a / neu driniaeth canser.
- Niwed (cyfredol ac yn y dyfodol) sy'n deillio o'r mesurau rheoli eu hunain, e.e. effaith economaidd-gymdeithasol ar grwpiau economaidd-gymdeithasol a difreintiedig is, gorbryder a niwed i iechyd meddwl o ganlyniad i ynysu wrth warchod, ymbellhau corfforol, cau ysgolion a diweithdra ar raddfa fawr.

Mae pob adroddiad hefyd yn cynnwys:

- Mewnwelediadau epidemiolegol a data, e.e. dadansoddiad gwerth 'R', amrywiad mewn achosion/marwolaethau/profi/adrodd
- Tystiolaeth bresennol ac sy'n dod i'r amlwg, a chanllawiau e.e. mesurau atal a rheoli; profi, tracio ac olrhain; cadw pellter cymdeithasol
- Polisïau a dulliau ymateb ac adfer, e.e. ailagor gwasanaethau, addysg, trafnidiaeth, cyfathrebu risg
- Effeithiau a modelu economaidd-gymdeithasol a thegwch ehangach, e.e. cyflogaeth (diweithdra), grwpiau agored i niwed, trais, digartrefedd
- Adolygiadau manwl o wledydd

**Troednodiadau:**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru
Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi: https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi
Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol
Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad: https://llyw.cymru/arwain-cymru-allan-or-pandemig-coronafeirws-html

# Adroddiadau Sganio'r Gorwel Rhyngwladol:  Methodoleg

Cyhoeddwyd yr adroddiadau Sganio'r Gorwel Rhyngwladol yn rheolaidd ers Ebrill 2020, gan gyfosod data, tystiolaeth a dysgu empirig gan sefydliadau allweddol, ymchwil a gwledydd perthnasol. Er mwyn cael dealltwriaeth a throsolwg o'r dystiolaeth ryngwladol gyfredol sydd ar gael mewn perthynas â COVID-19, mae'r adroddiadau yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys llenyddiaeth wyddonol, gohebiaeth y llywodraeth ac adroddiadau a dadansoddiadau sefydliadau anllywodraethol. Mae'r dull methodolegol yn cynnwys proses tri cham sy'n cynnwys adolygiad cwmpasu, synthesis tystiolaeth a golygu terfynol. Nod y dull systematig hwn yw darparu deallusrwydd deinamig, cyfoes, gweithredadwy a chyfleu canfyddiadau allweddol, gan ganiatáu i'r adroddiad fod yn gryno ac yn hawdd ei ddeall.

Er mwyn cael dealltwriaeth a throsolwg o'r dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r pwnc o ddiddordeb, mae tîm y prosiect yn ystyried nid yn unig ffynonellau tystiolaeth sylfaenol ond rhai eilaidd hefyd. Mae hyn oherwydd y sefyllfa COVID-19 sy'n esblygu'n gyflym yn rhyngwladol a sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad, yn aml yn brin o ffynonellau tystiolaeth sylfaenol gadarn fel erthyglau academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n eithaf sylweddol yn dibynnu ar y pwnc o ddiddordeb. Mae'r meini prawf cynhwysiant ar gyfer pob adolygiad cwmpasu yn cynnwys gweithio gyda thystiolaeth a nodwyd sy'n mynd i'r afael â phandemig COVID-19, yn ogystal ag adnoddau dibynadwy a chadarn, gan ddefnyddio tystiolaeth gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), Y Canolfannau Ewropeaidd ar gyfer Rheoli ac Atal Clefydau (CDC), a Chatalog Data Banc y Byd ymhlith eraill, ynghyd ag erthyglau cyfnodolion cadarn a adolygwyd gan gymheiriaid. Defnyddir hierarchaeth y dystiolaeth i asesu pa mor gadarn yw astudiaethau ymchwil.

Mae tystiolaeth berthnasol yn cael ei thynnu, ei syntheseiddio a'i llunio i grynodebau lefel uchel ar gyfer yr adroddiad. I adrodd ar ganfyddiadau, bydd y detholiad terfynol o dystiolaeth gyhoeddedig a llwyd a gasglwyd trwy'r amrywiol gronfeydd data yn cael ei ychwanegu at dempled yr adroddiad. Mae'r adroddiadau fel arfer yn ymdrin â dau i dri maes blaenoriaeth o ddiddordeb a diweddariad epidemiolegol cysylltiedig ar wledydd dethol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r pwnc o ddiddordeb. Mae cynnwys y meysydd blaenoriaeth yn dibynnu ar y math o gwestiwn a'r math o dystiolaeth berthnasol sydd ar gael.

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu: Calendr Cryno

Mae'r Calendr Cryno hwn wedi coladu, syntheseiddio a chyflwyno crynodeb clir a chryno o Adroddiadau Sganio'r Gorwel Rhyngwladol COVID-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, ers Ebrill 2020 hyd at Fawrth 2021. Mae'r llif gwaith Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu wedi dangos ei fod yn arddangos ymchwil addysgiadol ac effeithiol wrth goladu data o wledydd eraill, gan ddarparu arweiniad, argymhellion a mewnwelediadau defnyddiol ynghylch natur esblygol ac ansicrwydd pandemig COVID-19; mae hyn wedi ceisio gwella a llywio gweithredoedd a dulliau o'r fath yng Nghymru. Nod y crynodeb yw llywio trosolwg cryno o weithredu polisi cynhwysfawr, cydlynol, cynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb tuag at Gymru iachach, mwy cyfartal, cydnerth, llewyrchus a chyfrifol yn fyd-eang, ac sy'n parhau i wneud hynny.

Mae'r Calendr Cryno wedi dwyn ynghyd yr holl ddysgu hyd yma gydag un dudalen yr adroddiad yn cynnwys negeseuon allweddol ac argymhellion allweddol o dudalen synthesis lefel uchel pob adroddiad Sganio'r Gorwel Rhyngwladol (IHS).

Mae pob tudalen yr adroddiad yn dangos diweddariad epidemiolegol yng Nghymru ar adeg cyhoeddi'r adroddiad. Cymerwyd data ar gyfer y diweddariad epidemiolegol yng Nghymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar gael yma). Mae data ar achosion COVID-19 yng Nghymru yn cynnwys achosion wedi'u cadarnhau mewn ysbytai ac mewn mannau eraill, yn ôl dyddiad y sbesimen. Mae data ar farwolaethau COVID-19 yng Nghymru yn dangos marwolaethau yr amheuir eu bod wedi'u hachosi gan COVID-19 mewn pobl sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, wedi'u dangos yn ôl dyddiad y farwolaeth (dim ond mewn unigolion fu farw a gafodd eu cadarnhau gan labordy fod COVID-19 arnynt).

## Sut i ddefnyddio'r calendr sganio'r gorwel rhyngweithiol hwn

**Cliciwch yma**

Y ffordd orau i weld y ddogfen hon yw ar gyfrifiadur pen desg neu liniadur gan ddefnyddio Adobe Acrobat Reader (ar gael yma i'w lawrlwytho am ddim).

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu:  Lledaenu ac Effaith




Mae cyfanswm o 26 adroddiad wedi'u datblygu dros 2020/21: dau adroddiad peilot a 24 adroddiad cyhoeddedig, wedi'u lledaenu fel rhan o ddiweddariad wythnosol/pythefnosol Adnodd Rhyngwladol WHO CC, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol a dolenni i adnoddau defnyddiol, megis gweminarau ac adroddiadau cyhoeddedig perthnasol. Cyhoeddir yr holl adroddiadau a gellir eu gweld yn ystorfa WHO CC (ar gael yma). Mae'r adroddiadau wedi llywio penderfyniadau a pholisïau ymateb  COVID-19 yng Nghymru yn ddeinamig.

Ymhlith y cynulleidfaoedd targed allweddol mae:

- Llywodraeth Cymru ac yn benodol Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru ac wedi'u bwydo'n arbennig i Grŵp Cynghori Technegol Llywodraethau Cymru (Iechyd Rhyngwladol) gyda thystiolaeth o adroddiad wedi ymddangos fel enghraifft mewn briff crynodeb thematig Cell Cynghori Technegol
- Grŵp Rheoli Aur Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr WHO CC
- Ein rhanddeiliaid rhyngwladol
- Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cenedlaethol a rhyngwladol (cyhoeddus)
- Llunwyr polisi ac eiriolwyr (iechyd y cyhoedd) ar lefel genedlaethol a lleol

Mae tystiolaeth o'r adroddiadau hefyd wedi cael ei chyflwyno trwy weminarau, gan dargedu rhanddeiliaid rhyngwladol WHO CC a derbyniwyd crynodeb yng Nghynhadledd Iechyd Cyhoeddus Ewrop 2021. Mae'r tîm wedi cyflwyno amryw o gyflwyniadau ar yr adroddiadau ac wedi trefnu gweminarau i gyflwyno canfyddiadau. Er enghraifft, ym mis Hydref 2020, trefnodd aelodau o dîm y prosiect weminar ynghyd â Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd Cymru i gyflwyno canfyddiadau o'r adroddiadau (ar gael yma).




International Horizon Scanning and Learning

# Cynnwys


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad Peilot** Ebrill 2020 | **Adroddiad 3** 7fed Mai 2020 | **Adroddiad 4** 14eg Mai 2020 | **Adroddiad 5** 21ain Mai 2020 | **Adroddiad 6** 28ain Mai 2020 |
| **Adroddiad 7** 4ydd Mehefin 2020 | **Adroddiad 8** 11eg Mehefin 2020 | **Adroddiad 9** 18fed Mehefin 2020 | **Adroddiad 10** 25ain Mehefin 2020 | **Adroddiad 11** 9fed Gorffennaf 2020 |
| **Adroddiad 12** 23ain Gorffennaf 2020 | **Adroddiad 13** 6ed Awst 2020 | **Adroddiad 14** 2il Medi 2020 | **Adroddiad 15** 22ain Medi 2020 | **Adroddiad 16** 8fed Hydref 2020 |
| **Adroddiad 17** 22ain Hydref 2020 | **Adroddiad 18** 5ed Tachwedd 2020 | **Adroddiad 19** 19eg Tachwedd 2020 | **Adroddiad 20** 3ydd Rhagfyr 2020 | **Adroddiad 21** 17eg Rhagfyr 2020 |
| **Adroddiad 22** 21ain Ionawr 2021 | **Adroddiad 23** 4ydd Chwefror 2021 | **Adroddiad 24** 18fed Chwefror 2021 | **Adroddiad 25** 4ydd Mawrth 2021 | **Adroddiad 26** 18fed Mawrth 2021 |

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol, 30ain Ebrill 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Mesurau atal a rheoli:

- Roedd yr argymhellion ar ddefnyddio mygydau yn anghyson
- Roedd llawer o wledydd yn wynebu prinder o Offer Personol Amddiffynnol (PPE) digonol
- Nid oedd digon o dystiolaeth am effeithiolrwydd imiwnedd cysylltiedig â gwrthgyrff
- Nid oedd tystiolaeth ddigonol yn ategu'r defnydd o "basbort imiwnedd" neu "dystysgrif ddi-risg"

### Effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amlddimensiwn:

- Bydd yr achosion yn gwaethygu'r anghydraddoldebau cyfredol yng Nghymru ac yn cael yr effaith fwyaf ar y rhannau mwyaf agored i niwed ac ymylol o'r boblogaeth
- Mae mesurau iechyd cyhoeddus cyfyngol yn cynyddu amlygiad i drais ar sail rhywedd

### Y grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o COVID-19:

- Ffoaduriaid, ymfudwyr, lleiafrifoedd, pobl ag anableddau, LHDTQI, menywod, yr henoed, ieuenctid a phlant

### I liniaru morbidrwydd gormodol:

- Atgyfnerthu cyfalaf cymdeithasol, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant
- Amddiffyn llesiant economaidd, sicrhau diogelwch ariannol
- Diogelu heddwch a sefydlogrwydd
- Ymgymryd ag ysgogiad cyllidol a chefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed
- Amddiffyn Hawliau Dynol a chanolbwyntio ar gynhwysiant
- Cefnogi addysg
- Blaenoriaethu mesurau cydlyniant cymdeithasol

### Golwg ar Wlad




### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 7fed Mai 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith ar gartrefi gofal a lleoliadau caeedig eraill:

- Oherwydd gwahaniaethau o ran argaeledd profion, polisïau a dulliau o gofnodi marwolaethau, mae'n anodd cymharu'n rhyngwladol
- Dylai cyfleusterau sgrinio'r holl Ymarferwyr Gofal Iechyd (HCP) ar ddechrau eu shifft am dwymyn a symptomau COVID-19 a dylai'r cyfleusterau ddatblygu (neu adolygu)) cynlluniau presennol i liniaru prinder staff rhag salwch neu absenoldeb

### PPE:

- Mae'r WHO wedi lansio porth cyflenwi COVID-19 newydd, offeryn pwrpasol i hwyluso a chydgrynhoi cyflwyno ceisiadau cyflenwi gan awdurdodau cenedlaethol a'r holl bartneriaid gweithredu sy'n cefnogi Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol COVID-19

### Effaith ar y system addysg:

- Effaith syfrdanol COVID-19 ar addysg yn fyd-eang, gydag amcangyfrif o 1.38 biliwn o ddysgwyr yn cael eu heffeithio gan gau ysgolion
- Dylai'r dull ailagor ysgolion fod yn gynhwysfawr a chynnwys:
- diwygiadau polisi; darpariaethau ariannol; modelau dysgu cydadferol a hybrid, gweithredu i gyrraedd y mwyaf ymylol: mesurau lles ac amddiffyn; gweithrediadau diogel

### Dulliau ac ystyriaethau pontio:

- Dylai pontio gael ei lywio gan asesiadau risg cenedlaethol, lleol a chymunedol, ynghyd â thystiolaeth a phrofiad rhyngwladol
- Rhaid canolbwyntio ar gydbwyso a lliniaru effeithiau iechyd y cyhoedd, gwasanaeth iechyd, cymdeithasol ac economaidd ehangach, gan gynnwys tegwch a bregusrwydd

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 14eg Mai 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith ar gyflogaeth a baich ariannol ac iechyd cysylltiedig

- Amcangyfrifwyd bod y cynnydd yn nifer y di-waith rhwng 5.3 a 24.7 miliwn yn fyd-eang
- Mae gweithwyr incwm isel yn llai tebygol o allu gweithio gartref ac maent yn fwy tebygol o ymweld ag ardaloedd poblog iawn, yn wahanol i weithwyr incwm uwch sy'n fwy abl i weithio o bell
- Roedd cyflogeion newydd yn colli allan ar y cynllun ffyrlo oherwydd rheolau'r gyflogres
- Yn GE Aviation yng Nghymru, cafodd 50% o staff gweithgynhyrchu peiriannau eu rhoi ar ffyrlo a gostyngodd elw 40% yn ystod 3 mis cyntaf 2020, mewn ymateb i lai o alw gan y diwydiant hedfan wrth i hediadau gael eu hatal ledled y byd
- Gofynnodd Tata steel am £500 miliwn o gefnogaeth gan y Llywodraeth

### Effaith ar grwpiau agored i niwed

- Mae dynion yn fwy agored i gontractio a marw o COVID-19; tra bod menywod yn wynebu risg uwch o golli swydd ac incwm, trais, camfanteisio, cam-drin neu aflonyddu ar adegau o argyfwng a chwarantîn
- Mae pobl hŷn mewn mwy o berygl o farw o COVID-19, yn ogystal â gwahaniaethu, tlodi bwyd, allgáu digidol a mwy o stigma
- Mae gan grwpiau ymylol faich afiechyd COVID-19 uwch, yn fwyaf arwyddocaol lleiafrifoedd ethnig, y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r henoed
- Argymhellion polisi:
  - ✓ Dyrannu adnoddau, gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â thrais yng nghynlluniau ymateb COVID-19, defnyddio data wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw i ddeall effaith a rhoi menywod yng nghanol newid polisi, datrysiadau ac adferiad
  - ✓ Adeiladu gallu gwasanaethau allweddol, gan gynnwys cyllid pwrpasol i amddiffyn menywod rhag cwympo i dlodi
  - ✓ Cryfhau'r ddarpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys mecanweithiau adrodd sy'n addas i blant

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Nghymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 21ain Mai 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Adferiad y system iechyd:

- Mae llawer o elusennau iechyd a gofal yn y DU yn poeni am yr amser y bydd yn ei gymryd nes bod y gwasanaethau iechyd yn ailgychwyn yn llawn eto
- Nodwyd pum her uniongyrchol i'r system gofal iechyd:
  1. Rheoli rheolaeth heintiau a'r effaith ar gapasiti
  2. Deall a mynd i'r afael â maint llawn yr anghenion sydd heb eu diwallu
  3. Sicrhau'r cyhoedd ynghylch defnyddio gwasanaethau
  4. Gofalu am y gweithlu a'i dyfu
  5. Gwella ac nid dim ond adfer gwasanaethau
- Argymhellion:
  - ✓ Adeiladu ar ofal iechyd sylfaenol i ymateb i'r galw sydd wedi pentyrru o gyflyrau cronig ac oedi cyn ceisio gofal
  - ✓ Defnyddio systemau gwybodaeth rheoli iechyd poblogaeth gofal sylfaenol yn rhagweithiol i nodi a gweithio gydag unigolion risg uchel
  - ✓ Gwella a gwneud y gorau o adnoddau o ran llwyfannau cyflenwi gwasanaeth
  - ✓ Cryfhau cydgysylltiad rhwng gofal iechyd sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i ddarparu cefnogaeth gynhwysfawr i bobl hŷn sy'n agos at eu cartref gyda chefnogaeth trwy recriwtio, traws-hyfforddi a chylchoedd dysgu cyflym.

### Ailagor y sector addysg:

- Mae heintiau difrifol COVID-19 yn brin ymhlith y rhai dan 18 oed, sy'n cynnwys dim ond 1.4% o'r rhai sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Dim ond 0.8% sydd o dan 5 oed
- Ni weithredwyd dull cyson, na mesurau cyffredin, ar draws gwledydd Ewrop; ac efallai na fydd penderfyniadau cenedlaethol yn optimaidd oherwydd amrywiant is-genedlaethol
- Mae'r dystiolaeth gyfyngedig bresennol yn dangos nad yw plant yn cyfrannu'n sylweddol at drosglwyddo mewn cartrefi, e.e. nid ydynt eto'n 'archledaenwyr' COVID-19

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 28ain Mai 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Arferion profi COVID-19:

- Mae profion a data seroleg (mesur gwrthgyrff serwm) yn hanfodol ar gyfer gwyliadwriaeth, asesu'r potensial ar gyfer imiwnedd torfol, ac ar gyfer modelu deinameg trosglwyddo feirws yn gywir, sy'n darparu sylfaen ar gyfer polisïau i ailagor cymdeithasau
- Nid oedd tystiolaeth bod profion serolegol (gwrthgyrff) COVID-19 yn dangos a yw person wedi datblygu imiwnedd ac nad yw bellach mewn perygl o gael ei ail-heintio
- Roedd yr amserlenni profi yn amrywio, gyda'r canlyniadau cyflymaf yn cael eu hanfon at unigolion o fewn 24 awr

### Cadw at fesurau cyfnod clo:

- Roedd lefel yr ymlyniad yn amrywio ar draws gwledydd, yn dibynnu ar y gwahanol fesurau ymateb a weithredwyd, yn enwedig mewn perthynas â llymder a gorfodi'r cyfnod clo
- Roedd creu a chynnal ymdeimlad o hunaniaeth ar y cyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gweithredu ar y cyd parhaus sy'n angenrheidiol i gadw'r feirws i ffwrdd, wrth ddychwelyd i normal. Crëir synnwyr o'r fath trwy fod yn gynhwysol o'r holl grwpiau cymdeithasol a chymunedau lleol
- Er mwyn llwyddo gydag ymlyniad, mae'n hanfodol ennill dealltwriaeth o faterion megis: ymddiriedaeth mewn awdurdodau iechyd, argymhellion a gwybodaeth; canfyddiadau risg; derbyn ymddygiadau argymelledig; gwybodaeth; rhwystrau/ysgogwyr i ymddygiadau argymelledig; camdybiaethau; stigma

### Golwg ar Wlad




**28/05/2020**
Achosion:
**14,392**
Marwolaethau:
**1,343**

29/05/2020: Yng Nghymru, mae'r Prif Weinidog yn cyhoeddi bod y neges 'arhoswch gartref' yn newid i 'arhoswch yn lleol'. O 1af Mehefin 2020 gall dau gartref gwrdd yn yr awyr agored a dylid parhau i ddilyn arferion cadw pellter cymdeithasol a hylendid da. Pwysleisiwyd y dylai pobl aros yn lleol a defnyddio "pum milltir fel canllaw" ond mae hwn yn "gysyniad hyblyg a all amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau pobl". Nododd y Prif Weinidog hefyd "y dylai busnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol ddefnyddio'r tair wythnos nesaf i ddechrau paratoi i ailagor"

Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

#### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 4ydd Mehefin 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Trosglwyddo COVID-19 yn yr awyr agored:

- Mae trosglwyddiad y feirws yn llawer llai tebygol mewn amgylcheddau awyr agored gymharu â dan do
- Ni phrofwyd eto y gall tymheredd uchel ac ymbelydredd UV leihau trosglwyddiad COVID-19
- Archwiliwyd effeithiau meteorolegol ar drosglwyddiad COVID-19, gyda lledaeniad y feirws yn cyrraedd uchafbwynt mewn rhanbarthau tymherus gyda thymheredd cymedrig o 5°C.
- Mae'n annhebygol iawn y bydd y feirws yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol trwy ddŵr nofio a dŵr ymolchi

### Effeithiau tymor hir y cyfnod clo:

- Mae rhieni incwm uwch yn llawer mwy tebygol na'r rhai llai cefnog o adrodd bod ysgol eu plentyn yn darparu dosbarthiadau ar-lein a mynediad at fideogynadledda ar-lein gydag athrawon
- Canfu astudiaethau yn gynnar yn y cyfnod clo fod hyd at 37% o oedolion yn dangos arwyddion o drallod seicolegol; roedd hyd at 45% o oedolion yn teimlo effeithiau andwyol ar iechyd meddwl; ac roedd hyd at 70% yn teimlo mai'r cyfnod hwn oedd y mwyaf llawn straen yn eu gyrfaoedd

- Ym mis Ebrill 2020, roedd presenoldeb yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys 57% yn is nag ym mis Ebrill 2019 yn y DU, gan awgrymu y gallai'r cyhoedd fod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol ar gyfer ofn haint
- • Mae WHO yn argymell chwe maen prawf i wledydd eu hystyried: Yn gyntaf, bod gwyliadwriaeth yn gryf, achosion yn gostwng a throsglwyddiad yn cael ei reoli. Yn ail, bod galluoedd y system iechyd ar waith i ganfod, ynysu, profi a thrin pob achos ac olrhain pob cyswllt. Yn drydydd, bod risgiau o achosion yn cael eu lleihau mewn lleoliadau arbennig fel cyfleusterau iechyd a chartrefi nyrsio. Yn bedwerydd, bod mesurau ataliol ar waith mewn gweithleoedd, ysgolion a lleoedd eraill lle mae'n hanfodol i bobl fynd. Yn bumed, y gellir rheoli risgiau mewnforio. Yn chweched, bod cymunedau wedi'u haddysgu'n llawn, yn ymgysylltu ac wedi'u grymuso i addasu i'r 'norm newydd'

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 11eg Mehefin 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Gofal plant cyn-ysgol:

- Mae COVID-19 yn debygol o gael mwy o effaith ar fenywod a phlant, oherwydd risg anghymesur; diffyg amddiffyniadau cymdeithasol a llafur yn y sector swyddi anffurfiol; a mwy o fenywod â chyfrifoldebau gofal plant
- Cafodd y defnydd o neiniau a theidiau fel gofalwyr ei atal neu ei leihau ar y cyfan, fodd bynnag roedd yn parhau i fod yn bryder, gan fod llawer o rieni wedi cael eu gorfodi i barhau i'w defnyddio er mwyn parhau i weithio
- Mae llawer o wledydd wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni a lleoliadau cyn-ysgol, yn enwedig i weithwyr hanfodol allweddol
- Yn yr Eidal, mae meithrinfeydd yn parhau ar gau er gwaethaf rhieni yn dychwelyd i'r gwaith
- Mae rhieni wedi cael eu gorfodi i adael plant ag aelodau oedrannus o'r teulu sydd â risg uchel, oherwydd diffyg opsiynau gofal plant

### Y dull 'swigen gymdeithasol':

- Defnyddiodd gwledydd y dull 'swigen gymdeithasol' wrth i'r cyfnod clo lacio. Yr egwyddor gyffredinol oedd bod pob cartref yn cael rhyngweithio â nifer gyfyngedig o gartrefi eraill
- Yng Ngwlad Belg, er 14eg Mai 2020, caniatawyd i neiniau a theidiau heb gyflyrau iechyd sylfaenol ac iau na 65 oed ofalu am eu hwyrion

### Ailagor trafnidiaeth gyhoeddus:

- Mewn lleoedd sydd â hybiau trafnidiaeth mawr, fel Madrid a Singapore, mae peiriannau gwerthu wedi'u gosod i werthu mygydau a glanweithydd dwylo i deithwyr
- Gellir gwrthod mynediad i deithwyr os nad oes ganddyn nhw fygydau wyneb na gorchuddion wyneb

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 18fed Mehefin 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Ailadrodd profion:

- Roedd diffyg "safon aur" glir ar gyfer profion COVID-19, a wnaeth gwerthuso cywirdeb profi yn heriol
- Gall ailadrodd profion fod yn offeryn defnyddiol wrth ei ategu â mesurau ataliol a gyda gallu profi sydd ar gael yn rhwydd, ond ni ddylid dibynnu arno fel yr unig fesur ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Mae amrywiad strategaethau a phrotocolau profi wedi cael effaith sylweddol ar ystadegau gwledydd a adroddwyd, gan gynnwys cyfraddau marwolaeth achosion a dosbarthiad oedran achosion

### Cadw pellter cymdeithasol:

- Nid oedd unrhyw gydberthynas glir rhwng y mesurau cadw pellter cymdeithasol a weithredwyd a chyfraddau'r haint ar draws gwahanol wledydd
- Mae pellter corfforol o fwy nag 1m yn arwain at ostyngiad mwy mewn haint o'r feirws gyda phob 1m ymhellach wrth bellhau, gall yr effaith gymharol gynyddu ddwywaith - mae pellter 2m yn debygol o fod yn fwy effeithiol gan leihau'r risg o haint 50% arall.
- Ni ddylid ystyried effeithiolrwydd pob mesur cadw pellter cymdeithasol ar ei ben ei hun, gan fod lleoliadau cyd-destunol a gwahanol fesurau eraill yn debygol o gael effaith amlwg

### Cryfhau cydnerthedd cymunedol:

- Mae angen i lywodraethau weithio gyda phobl, cymunedau a phartneriaid ar draws sectorau i "Adeiladu'n Ôl yn Well" tuag at gymdeithasau mwy cynaliadwy a chydnerth
- Mae "Adeiladu'n Ôl yn Well" yn golygu defnyddio argyfwng fel cyfle i drawsnewid biwrocratiaethau, agweddau ac isadeileddau. Er mwyn gwella heddwch, tegwch, cynaliadwyedd a gallu i addasu mae angen integreiddio safbwyntiau tymor byr a thymor hir, oherwydd gall penderfyniadau cynnar a buddsoddiad bennu cyfradd adfer tymor hir, cynhwysiant a chynaliadwyedd

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 25ain Mehefin 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Mannau problemus:

- Mae mannau problemus yn cynnwys gweithfeydd prosesu cig, ffatrïoedd, adeiladau â systemau awyru ymosodol ac amgylcheddau cyflym
- Mae asesiad arbenigol o dystiolaeth yn dangos y gall feirws COVID-19 ledaenu o bosibl trwy fio-erosolau ac os na ddefnyddir systemau awyru yn gywir, gallai hyn gyfrannu at drosglwyddo a lledaenu afiechydon yn yr awyr, fel y cynigiwyd yn flaenorol ar gyfer SARS
- Dulliau lliniaru, a argymhellir gan y Canolfannau ar gyfer Rheoli ac Atal Clefydau (CDC): Symudiad un ar y tro gyda phellter chwe troedfedd rhwng pob gweithiwr lle bo hynny'n bosibl; Dynodi gweithwyr i fonitro a hwyluso pellter ar linellau'r llawr; Ciwiau gweledol (e.e. marciau/arwyddion llawr) i atgoffa i gynnal pellter cymdeithasol; amseroedd egwyl a chyrraedd gwahanol er mwyn osgoi pobl yn ymgasglu mewn mannau parcio

### Digartrefedd:

- Gall yr achos o COVID-19 effeithio ar ddiogelwch tai, gyda cholli incwm, achosi ôl-ddyledion rhent neu forgais neu hyd yn oed ddigartrefedd
- Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn grŵp agored i niwed, yn aml â chronig problemau corfforol neu feddyliol ymhellach, a gall amlygiad i COVID-19 effeithio'n negyddol ar eu hiechyd

### Effaith newid yn yr hinsawdd ar gyfraddau mynychder:

- Mae patrymau tymhorol feirysau tebyg yn dangos eu bod yn lledaenu mwy yn ystod misoedd oer
- Gall mater gronynnol, fel defnynnau, bara'n hirach mewn amgylcheddau oer a llai llaith
- Mae ymddygiad poblogaeth yn dangos bod pobl yn tueddu i gasglu mwy mewn lleoedd caeedig yn ystod misoedd oerach
- Gall tymereddau isel y gaeaf wneud y corff dynol yn fwy agored i heintiau feirol

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 9fed Gorffennaf 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Mannau problemus a llwybrau trosglwyddo

- Mewn llawer o wledydd, mae achosion COVID-19 yn dangos amrywiad rhanbarthol/ardal/dinas uchel ac mae'n ffenomen sylweddol ranbarthol
- Mae cymdogaethau incwm is â dwysedd poblogaeth uchel, llai o fynediad i fannau gwyrdd a mwy o lygredd aer, yn dioddef yn anghymesur ac mae angen cefnogaeth wedi'i thargedu arnynt
- Mae'r WHO yn amcangyfrif bod hyd at 50% o'r holl farwolaethau o COVID-19 hyd yma wedi digwydd ymhlith preswylwyr cartrefi gofal yn Ewrop
- Mae achosion mewn marchnadoedd dan do yn cael effeithiau ehangach, gan amharu ar gadwyni cyflenwi bwyd a chynhyrchu bwyd; colli incwm a phrinder llafur, gan greu tensiynau ac ansicrwydd bwyd

### Ymddygiad dynol yn ystod pandemigau:

- Nodwyd tri math o ymddygiad: ataliol, osgoi a rheoli afiechyd
- Mae bod yn hŷn, yn fenyw, yn fwy addysgedig, neu heb fod yn wyn, yn gysylltiedig â siawns uwch o fabwysiadu ymddygiadau amddiffynnol
- 'Rhagfarn optimistiaeth' yw'r gred bod pethau drwg yn llai tebygol o ddigwydd i chi'ch hun, yn ddefnyddiol ar gyfer osgoi emosiynau negyddol, ond hefyd yn tanamcangyfrif risg a lleihau cydymffurfiad
- Ymhlith y rhagfynegwyr allweddol o lynu wrth fesurau a chydymffurfio â nhw mae: lefelau tueddiad canfyddedig i'r afiechyd, difrifoldeb y risg a'r risg ohono; cred yn effeithiolrwydd yr ymddygiadau argymelledig; lefelau gorbryder, ofn ac ymddiriedaeth mewn awdurdodau
- Dylai'r wybodaeth a ledaenir fod yn gywir, yn glir, yn syml, heb fod yn llawn cyffro neu'n codi ofn, a chynnig cymaint o sicrwydd â phosibl
- Mae deall y patrymau trosglwyddo sylfaenol ymhlith gwahanol boblogaethau yn rhoi mewnwelediadau i'r hyn a allai fod wedi digwydd yn ôl-weithredol

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 23ain Gorffennaf 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Fitamin D: a COVID-19

- Nid oedd tystiolaeth bendant bod cymryd atchwanegiadau fitamin D yn cynorthwyo'n benodol i atal neu drin COVID-19
- Mae diffyg fitamin D yn gyffredin yn Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mae'n digwydd mewn llai nag 20% o'r boblogaeth yng Ngogledd Ewrop, 30-60% yng Ngorllewin, De a Dwyrain Ewrop a hyd at 80% yng ngwledydd y Dwyrain Canol
- Yn Sgandinafia dim ond 5% o'r boblogaeth sy'n cael ei effeithio gan ddiffyg fitamin D.
- Yn yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal mae mwy na 25% yn cael ei effeithio, yn enwedig pobl hŷn
- Yn Awstria mae gan hyd at 90% o'r henoed lefelau fitamin D isel

### Cyfraddau ffliw a COVID-19:

- Mae mesurau iechyd cyhoeddus i atal, lleihau a rheoli lledaeniad a risgiau COVID-19, wedi cael eu gweithredu ledled y byd, a allai hefyd fod wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o ffliw tymhorol.
- Dylid llunio casgliadau o'r data yn ofalus, oherwydd gall y nifer llai o achosion o ffliw fod hefyd oherwydd gostyngiad mewn profi a baich ar systemau gwyliadwriaeth
- At ei gilydd, mae gan bwysau achosion ffliw a phandemig COVID-19 y potensial i herio a gorlwytho systemau gofal iechyd ledled y byd
- Gall patrymau a mesurau, a gymerwyd yng ngwledydd Hemisffer y De (yn y 'tymor ffliw' ar hyn o bryd), lywio dulliau gweithredu yng ngwledydd Hemisffer y Gogledd

### Cyfathrebu risg COVID-19:

- Mae pob ymyrraeth iechyd cyhoeddus dorfol yn codi pryderon moesegol a hawliau dynol
- Mae cyfathrebu risg sy'n gadarn yn wyddonol yn gofyn am ddadansoddiad penodol o'r penderfyniadau sy'n wynebu pobl, asesiad empirig o gredoau, gwerthoedd a phrosesau gwneud penderfyniadau perthnasol, datblygu a gwerthuso negeseuon yn empirig, gan ganolbwyntio ar y ffeithiau sy'n hanfodol i ddewisiadau unigolion

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 6ed Awst 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### COVID-19 a gordewdra:

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gormod o bwysau yn gysylltiedig â risg uwch o ran COVID-19, gan gynnwys: prawf positif, mynd i'r ysbyty, lefelau uwch o driniaeth (gan gynnwys awyru mecanyddol neu dderbyn i ofal dwys neu gritigol) a marwolaeth
- Mae tystiolaeth gyfyngedig wedi'i nodi ar draws gwledydd ynghylch strategaethau gordewdra. Mae sawl gwlad yn Ewrop wedi dosbarthu pobl ordew fel rhai 'agored i niwed' i leihau eu hamlygiad i'r coronafeirws

### Effaith COVID-19 ar ddiweithdra:

- Mae achos pandemig COVID-19 wedi cael effaith economaidd enfawr gyda'r amcangyfrif o nifer yr unigolion di-waith rhwng 5.3 a 24.7 miliwn yn fyd-eang
- Rhagwelir mai'r sioc uniongyrchol i economi Sbaen fydd y fwyaf arwyddocaol, yn enwedig i sectorau fel twristiaeth, hamdden, lletygarwch a llety

### Poblogaethau grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a COVID-19:

- Mae'r rhesymau dros wahaniaethau mewn COVID-19 o ran mynychder a chyfraddau marwolaeth yn amlswyddogaethol, ond mae'n amlwg bod anghydraddoldebau strwythurol yn gyrru'r pandemig yn rhannol
- Ychydig o wledydd a'u hasiantaethau gwyliadwriaeth priodol sy'n adrodd ar ddata ethnigrwydd. Dim ond y CDC yn yr UD ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr sy'n adrodd ar ddata COVID-19 yn ôl grŵp ethnig

### Effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol PPE:

- Gallai defnydd dyddiol ledled y boblogaeth o ddim ond un mwgwd tafladwy i bob person arwain at hyd at 66,000 tunnell o wastraff plastig halogedig
- Mae masgiau tafladwy, untro fel arfer yn cael eu gwneud o blastig. Mae polypropylen yn thermoplastig trwchus, na ellir ei ailgylchu ac na ellir ei fioddiraddio. Yn yr amgylchedd, amcangyfrifir y gall gymryd hyd at 450 mlynedd i ymddatod

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 2il Medi 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Dulliau adrodd COVID-19 a chanfyddiad y cyhoedd o risg:

- Mae gwledydd ledled y byd yn amrywio'n fawr yn eu dulliau adrodd, gan gynnwys gwahaniaeth yn y diffiniadau o achosion a marwolaethau COVID-19
- Mae canfyddiad risg yn cydberthyn yn gadarnhaol ac yn sylweddol â mynegai o ymddygiadau iechyd ataliol fel golchi dwylo, gwisgo mwgwd wyneb, a chadw pellter corfforol
- Yn nodedig, roedd canfyddiad risg ar ei uchaf yn y DU, ac yna Sbaen, y ddwy yn sylweddol uwch na'r holl wledydd eraill. Ymhlith y gwledydd sydd â llai o ymddiriedaeth yn eu llywodraeth mae: UDA, Mecsico a Sbaen. Mae gan y DU ddosbarthiad cyfartal o sgoriau ar gyfer ymddiriedaeth yn y llywodraeth; a sgoriau uwch ar gyfer ymddiriedaeth mewn gweithwyr meddygol proffesiynol

### COVID-19 yn Hemisffer y De:

- Nid oedd tystiolaeth bendant bod y tywydd (amrywiadau tymor byr mewn amodau meteorolegol), hinsawdd (cyfartaleddau tymor hir) na thymheredd yn cael dylanwad cryf ar drosglwyddo a lledaenu COVID-19
- Ochr yn ochr â chyfandiroedd eraill, mae'r dull o fynd i'r afael â phandemig COVID-19 wedi amrywio ar draws cenhedloedd Affrica
- Yn Affrica, roedd strategaethau iechyd y cyhoedd yn cynnwys: Gweithredu strategaeth Affrica cyfandirol, gweithgorau technegol sy'n adolygu'r dystiolaeth ddiweddaraf ac arfer gorau a chyflwynodd CDC Affrica y Bartneriaeth i Gyflymu Profi COVID-19 (PACT) ar ddechrau Mehefin 2020

### Diweddariad epidemioleg a mewnwelediad R:

- Mae'r dadansoddiad cymharol o wlad yn dangos: Efallai bod gan wledydd nifer / mynychder achosion uchel ond marwolaethau isel, fel yr Almaen, Singapore a Gwlad yr Iâ
- O edrych ar gyfanswm y niferoedd (cronnus), mae'n ymddangos bod y pandemig wedi effeithio'n fwy difrifol ar rai gwledydd, fel y DU, yr Eidal a Sbaen; a Sweden, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg yn llai felly

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 22ain Medi 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Difrifoldeb COVID-19 a thueddiadau amrywiol ar gyfer achosion a marwolaethau:

- Mae cyfraddau mynychder COVID-19 (hysbysiadau o achosion newydd) a chyfraddau marwolaeth (hysbysiadau o farwolaethau) wedi newid yn ddeinamig ers dechrau'r pandemig, gan ddangos tueddiadau amrywiol yn ystod 'ail don' mewn rhai gwledydd
- Esboniadau posibl am amrywiad yng nghyfraddau marwolaethau COVID-19 a thueddiadau amrywiol: Newid deinamig yn oedran y boblogaeth sy'n agored i COVID-19 ac yn marw ohono; amrywiad mewn dulliau o wyliadwriaeth ac adrodd, hefyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys strategaethau profi, diffiniadau o achosion/marwolaethau, dulliau amcangyfrif; parodrwydd, argaeledd ac ansawdd gofal iechyd, fel gwell triniaeth; proffil demograffig, iechyd ac economaidd-gymdeithasol gwahanol y boblogaeth agored a chleifion ar draws gwledydd

### Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc:

- Mae plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i'r systemau newidiol, sy'n gysylltiedig â mesurau rheoli ac atal COVID-19
- Mae llai na 10% o'r achosion yr adroddwyd arnynt a llai na 0.2% o farwolaethau ymhlith pobl ifanc o dan 20 oed

### Effaith COVID-19 ar iechyd a llesiant meddyliol:

- Mae mwy na hanner yr oedolion, dros ddwy ran o dair o bobl ifanc a thri chwarter y bobl rhwng 18 a 24 oed yn nodi bod eu hiechyd meddwl wedi dirywio yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a oedd yn bodoli eisoes a hebddynt.
- Gall cwarantîn gyfrannu at straen, dicter ac ymddygiadau risg uchel
- Mae ysgogwyr allweddol iechyd meddwl gwael yn cynnwys: cyfyngu ar gyswllt cymdeithasol; methu mynd y tu allan; gorbryder am deulu/ffrindiau; diflastod i bobl ifanc; teimladau o unigrwydd, yn enwedig i bobl ifanc; ddim yn teimlo bod gennych hawl i geisio cymorth a chael anhawster cael gafael arno

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 8fed Hydref 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith COVID-19 ar brifysgolion a myfyrwyr rhyngwladol:

- Roedd y mesurau i reoli COVID-19 mewn prifysgolion yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar statws yr achosion yn y rhanbarth lle mae'r brifysgol wedi'i lleoli
- Roedd gan lawer o brifysgolion ddull cyfunol, gan gyfuno dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Mae rhai gwledydd/prifysgolion wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol

### COVID-19 a beichiogrwydd:

- Mae menywod beichiog yn cael eu hystyried yn grŵp risg uchel ar gyfer haint COVID-19, ac mae'r effeithiau andwyol posibl ar ganlyniadau mamau ac amenedigol yn peri pryder
- Ymhlith y ffactorau risg ar gyfer canlyniadau difrifol o COVID-19 mewn beichiogrwydd mae oedran hŷn y fam, mynegai màs y corff uchel, a chyd-marwoldebau sy'n bodoli eisoes
- Mae menywod beichiog o gefndiroedd BAME â COVID-19 mewn mwy o berygl o fynd i'r ysbyty
- Mae menywod beichiog â COVID-19 yn fwy tebygol o brofi genedigaeth cyn amser ac mae eu babanod yn fwy tebygol o fod angen gofal newyddenedigol

### Cyfleusterau cwarantîn ac ynysu COVID-19:

- Roedd meini prawf gwlad ar gyfer derbyn i gyfleuster ynysu/cwarantîn COVID-19 yn amrywio ac yn ofynnol yn gyffredinol roedd:
  - ✓ Canlyniad prawf positif neu amheuaeth o ddod i gysylltiad â pherson heintiedig
  - ✓ Person yn methu â hunan-ynysu gartref
  - ✓ Teithio i neu o wlad neu ranbarth sydd â chyfradd heintiad uchel
- Defnyddiodd rhai gwledydd gyfleusterau cwarantîn dynodedig, fel gwestai ac maent wedi gweithredu mesurau i sicrhau cydymffurfiad
- Mae angen gwell data, cyllid, paratoi a hyblygrwydd i sicrhau'r nifer cywir o welyau ychwanegol, yn y lleoedd iawn, ar yr amser iawn

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 22ain Hydref 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Trosglwyddo COVID-19 mewn plant a phobl ifanc:

- Dim ond cyfran fach o achosion COVID-19 a adroddwyd mewn pobl iau na 19 oed (llai na 5% yn yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r DU)
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ffurf ysgafn iawn o'r clefyd COVID-19, os o gwbl (h.y. yn parhau i fod yn ansymptomatig), gyda chyfraddau cleifion yn yr ysbyty a marwolaethau yn isel iawn
- Gallai cyfran fach yr achosion yr adroddir amdanynt ymysg plant fod oherwydd eu risg is o ddatblygu symptomau a strategaethau profi heb fod yn blaenoriaethu symptomau ysgafn/plant
- Nid yw rôl plant wrth drosglwyddo COVID-19 yn cael ei deall yn llawn eto, gan gynnwys:
  - ✓ Tueddiad plant i ddal y feirws COVID-19 ar draws gwahanol grwpiau oedran
  - ✓ Gallu plant i drosglwyddo COVID-19 pan yn ansymptomatig/symptomatig
- Mae'n annhebygol y bydd cau sefydliadau gofal plant ac addysg yn fesur rheoli unigol effeithiol ar gyfer ymateb COVID-19 ac mae angen gwneud unrhyw benderfyniadau o'r fath yng nghyd-destun strategaeth lliniaru gymunedol gynhwysfawr

### Diweddariad epidemioleg COVID-19:

- Mae'r mwyafrif o wledydd ledled Ewrop, gan gynnwys y DU a Chymru, yn profi cynnydd mewn achosion COVID-19, h.y. cynnydd yn nhueddiadau cyfraddau achosion fesul 100,000
- Nid yw'r tueddiadau yn nghyfraddau achosion bob amser yn cael eu dilyn gan gynnydd yn nhueddiadau'r gyfradd marwolaethau, h.y. mae marwolaethau wedi aros yn gymharol sefydlog ar draws llawer o wledydd yn Ewrop
- Adroddir tueddiadau cynyddol yng nghyfraddau marwolaethau yn bennaf yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop, er enghraifft, yn Rwmania, Gwlad Tsiec, Hwngari, Gwlad Pwyl, Bwlgaria, Croatia, Slofacia a Gwlad Groeg
- Mae cyfraddau profi yn cynyddu ym mhob gwlad, gyda chyfraddau positifrwydd yn cynyddu yn y mwyafrif o wledydd, ond nid pob un

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Nghymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 5ed Tachwedd 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Dulliau o ymdrin â COVID-19 yn ystod yr hydref a'r gaeaf ledled Ewrop:

- Mae'r sefyllfa epidemiolegol bresennol ym mis Tachwedd 2020 yn Ewrop yn gofyn am fesurau iechyd cyhoeddus pendant:
  - ✓ Lleihau trosglwyddiad yr haint trwy: uwchsgilio a thargedu ymyriadau nad ydynt yn fferyllol; profi, ynysu ac olrhain cysylltiadau
  - ✓ Amddiffyn unigolion sydd â risg uwch a sicrhau mynediad i ofal iechyd i bawb trwy: amddiffyn unigolion sydd â risg uwch o glefyd difrifol; amddiffyn gweithwyr gofal iechyd; sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd
- Mae llawer o wledydd Ewropeaidd wedi cyflwyno dull risg haenedig (e.e. system goleuadau traffig) i hwyluso a chyfathrebu gwneud penderfyniadau ynghylch cyflwyno mesurau mwy caeth a chyfyngu ar deithio trawsffiniol

### Amharu ar wasanaethau iechyd hanfodol: effaith a lliniaru:

- Mae cyflwyno gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer pob cyflwr wedi'i amharu, ac wedi'i waethygu gan ofn, stigma, gwybodaeth anghywir a chyfyngiadau ar symud
- Mae tarfu ar wasanaethau iechyd wedi effeithio ar y rhai sy'n byw gyda chlefydau anhrosglwyddadwy (NCDs) yn fwyaf arbennig, canser, clefyd y galon ac iechyd meddwl
- Nododd gwledydd ledled y byd amhariad sylweddol ar wasanaethau NCD gyda gofal deintyddol, adsefydlu a gofal lliniarol sydd fwyaf tebygol o gael eu tarfu'n llwyr
- Mae COVID-19 a NCDs yn cael effaith ddwyochrog, gyda NCDs yn cynyddu bregusrwydd o ran trosglwyddo a chanlyniadau difrifol; a COVID-19 yn gwaethygu cyflyrau cronig
- Po fwyaf difrifol yw'r cyfnod trosglwyddo COVID-19, y mwyaf o darfu sydd ar wasanaethau
- Mae COVID-19 wedi tarfu neu atal gwasanaethau iechyd meddwl critigol mewn 93% o 130 o wledydd ledled y byd, gan gynnwys gwasanaethau brys a hanfodol i achub bywyd

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 19eg Tachwedd 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### COVID-19 a theithio rhyngwladol:

- Prin oedd y dystiolaeth ar sut mae teithio rhyngwladol yn cyfrannu at gyfraddau COVID-19
- Ledled y byd, mae gwledydd wedi gweithredu gwahanol fesurau lliniaru trawsffiniol, gan gynnwys strategaethau sgrinio ymadael/dod i mewn a chwarantîn/hunan-ynysu
- Gall strategaethau sgrinio gynnwys asesu symptomau, gwirio tymheredd, hanes teithio ac amlygiad i gysylltiadau, gofyniad am brawf negyddol cyn cyrraedd, a phrofion cyflym
- Dylai gwledydd gynnal asesiad risg parhaus, gan gynnwys y sefyllfa epidemiolegol gyfredol, capasiti'r ymateb cenedlaethol; a dadansoddiad risg-budd

### Effaith economaidd-gymdeithasol COVID-19:

- Mae COVID-19 wedi sbarduno dirwasgiad economaidd a chynnydd cyflym mewn diweithdra mewn llawer o wledydd yn fyd-eang gyda 40-60 miliwn o bobl yn cael eu gwthio i dlodi eithafol
- Teimlir effaith economaidd-gymdeithasol COVID-19 yn wahanol ar draws gwledydd, yn dibynnu ar eu strwythurau economaidd, demograffig a llywodraethu sylfaenol
- Baich anghymesur o uchel ar y tlawd, menywod, gweithwyr anffurfiol, ymfudwyr, ffoaduriaid, y rhai wedi'u dadleoli'n fewnol a phobl ag anableddau
- Mae effaith cyfnodau clo COVID-19 a'r dirwasgiad yn ei sgil yn fwy o ran Blynyddoedd Bywyd wedi'u Addasu o ran Ansawdd (QALYs) na'r marwolaethau uniongyrchol COVID-19
- Mae effaith iechyd negyddol tymor byr (blwyddyn) cyfnod clo/cadw pellter cymdeithasol yn 88,000 o QALYs a gollwyd, yn bennaf oherwydd materion iechyd meddwl cynyddol (iselder/gorbryder), anhwylderau cyhyrysgerbydol a cham-drin yn y cartref.

### Diweddariad epidemioleg COVID-19:

- Mae mwyafrif y gwledydd ledled Ewrop, gan gynnwys y DU, yn profi cynnydd mewn achosion COVID-19 ac mae cyfraddau profi yn cynyddu yn y rhan fwyaf o wledydd

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 3ydd Rhagfyr 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith mesurau COVID-19 ar drais rhyngbersonol:

- Mae  mesurau ynysu COVID-19 wedi creu ton digynsail o drais rhyngbersonol, gan gynnwys trais partner agos (IPV), trais rhywiol a seiliedig ar ryw (SGBV), a thrais yn erbyn plant
- Mae mesurau COVID-19, a'r effeithiau economaidd-gymdeithasol a seicolegol cysylltiedig, wedi arwain at lai o fynediad at wasanaethau a chefnogaeth seicogymdeithasol i ddioddefwyr trais a cham-drin, yn enwedig y rhai sydd wedi'u dadleoli a'r rhai mwyaf agored i niwed
- Mae COVID-19 wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer y cynnydd mewn camdriniaeth, cam-drin ac esgeuluso plant trwy gynyddu ffactorau risg hysbys, megis tlodi cartrefi, tai gorlawn, ynysiad cymdeithasol, llosgi allan a straen rhieni, IPV a cham-drin sylweddau.
- Mae grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws ac amrywiol o ran rhyw (LHDT+) mewn mwy o berygl o ynysiad, mwy o straen a thrais, yn enwedig pobl hŷn ac ieuenctid

### COVID-19 ac yfed alcohol:

- Gall mesurau ynysu gyfrannu at gynnydd yn y defnydd o alcohol, yn enwedig ar gyfer grwpiau agored i niwed a gweithwyr risg uchel, oherwydd ffactorau yn cynnwys ansicrwydd/caledi ariannol, ynysiad cymdeithasol, straen, a tharfu ar wasanaethau iechyd/gofal cymdeithasol.
- Mae yfed alcohol yn cynyddu bod yn agored i COVID-19 a chanlyniadau niweidiol, oherwydd effeithiau iechyd, ymddygiad ac economaidd-gymdeithasol niweidiol
- Gall chwedlau ar lefel poblogaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol a COVID-19 barhau ag ymddygiadau niweidiol
- Mae rhai gwledydd wedi gosod cyfyngiadau ar alcohol i leihau trosglwyddiad COVID-19
- Mae atebion polisi effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau yfed alcohol a'r niwed sy'n deillio o hyn yn cynnwys cyfyngu oriau gwerthu a danfon alcohol, a chynyddu'r pris trwy dreth neu isafswm pris uned (MUP)

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 17eg Rhagfyr 2020

## Canfyddiadau Allweddol

### Blinder pandemig a'r boblogaeth yn glynu wrth fesurau COVID-19:

- Mae "blinder pandemig" o ran mesurau COVID-19, a arweiniodd at ddiffyg cymhelliant i ymddwyn yn amddiffynnol ac i geisio gwybodaeth, wedi bod yn tyfu ledled y byd
- Ymhlith y strategaethau allweddol i gynyddu ymlyniad y boblogaeth mae: deall pobl er mwyn datblygu polisïau ac ymyriadau effeithiol wedi'u teilwra; cyfathrebu, wedi'i lywio gan dystiolaeth; ymgysylltu â phobl fel rhan o'r datrysiad, cynnwys cymunedau ac unigolion; caniatáu i bobl fyw eu bywydau, ond lleihau risg; cydnabod a mynd i'r afael â'r caledi y mae pobl yn ei brofi, a'r effaith ddwys y mae'r pandemig wedi'i chael ar eu bywydau

### Dosbarthiad a phetrusrwydd ynghylch brechlyn COVID-19:

- Mae nifer o ffactorau sylfaenol yn chwarae rôl mewn petrusrwydd brechlyn COVID-19, gan gynnwys: cyflymder datblygu'r brechlyn; pryderon ynghylch sgîl-effeithiau; normau cymdeithasol; costau o ran amser ac ymdrech; ymddiriedaeth yn y system iechyd, y llywodraeth, a chyrff gwneud penderfyniadau
- Canfu arolwg byd-eang ar draws 19 gwlad y byddai bron i 72% o ymatebwyr yn debygol o gymryd brechlyn os yw ar gael yn gyffredinol, a'i fod yn ddiogel ac yn effeithiol

### Cymharu cyfraddau cronnus COVID-19:

- Mae adrodd am ddigwyddiadau (achosion) o COVID-19 a marwoldeb (marwolaethau) ar draws gwledydd yn amrywio'n sylweddol
- Mae cymariaethau rhwng gwledydd yn anodd a rhaid iddynt bob amser ystyried ffactorau poblogaeth, cyd-destunol a methodolegol=

### Mesurau i atal COVID-19 mewn cyfleusterau gofal tymor hir:

- Effeithiwyd yn ddifrifol ar LTCF gan COVID-19 ledled Ewrop, gyda marwolaethau ymhlith preswylwyr yn cyfrif am 37-66% o'r holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19
- Ymhlith y mesurau allweddol i atal trosglwyddiad COVID-19 yn LTCF mae: mesurau rheolaidd a systematig o ran monitro, profi ac ynysu, rheoli ac atal haint, cyfyngu ar ymwelwyr, gwisgo PPE priodol, addysg a hyfforddiant staff

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 21ain Ionawr 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Dilyniant genomig ar gyfer COVID-19:

- Yn fyd-eang, mae 49 o wledydd wedi cyhoeddi mwy na 100 o ddilyniannau genom, gydag amrywiadau mawr yn nifer y dilyniannau genomig a berfformir ar draws gwledydd
- Mae'r DU ac UDA yn cyfrif am y mwyafrif o ddilyniannau genom cyhoeddedig gydag ymdrechion dilyniant yn gwella mewn sawl gwlad
- Mae dilyniant genomig COVID-19 wedi galluogi nodi sawl Amrywiad sy'n Achosi Pryder (VOC), gan gynnwys ar hyn o bryd:
  - ✓ 'Amrywiad y DU' (VUI202012/01)
  - ✓ 'Amrywiad De Affrica' (501Y.V2)
  - ✓ Dau amrywiad a nodwyd ym Mrasil (P1 a 20B/S.484K.V2)

### Colli addysg oherwydd COVID-19:

- Mae ton gyntaf y pandemig COVID-19 wedi achosi argyfwng dysgu byd-eang digynsail gydag ystod eang o effeithiau andwyol, megis diffyg maeth
- Mae COVID-19 wedi gwreiddio ymhellach anghydraddoldebau rhyw mewn addysg, yn enwedig mewn gwledydd sy'n datblygu
- Mae cysylltiad cryf rhwng addysg ac iechyd, diogelwch a rhagolygon bywyd plant yn y dyfodol

### Effaith COVID-19 ar ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches:

- Mae ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn aml mewn mwy o berygl o gontractio COVID- 19, oherwydd eu bod yn byw mewn amodau gorlawn, diffyg mynediad at lanweithdra sylfaenol, a llai o allu i ddilyn mesurau iechyd cyhoeddus
- Mae cyfyngiadau teithio a chau ffiniau wedi creu heriau newydd i boblogaethau mudol, gan waethygu'r gwendidau presennol
- Mae ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu rhwystrau wrth gyrchu gofal iechyd a gwasanaethau neu gefnogaeth gyhoeddus arall

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

**Achosion Covid-19**



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 4ydd Chwefror 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Dilyniant genomig ar gyfer COVID-19:

- Mae'r setiau data genomig byd-eang ar gyfer SARS-CoV-2 yn rhy fawr i lawer o offer dadansoddol cyfredol, sy'n rhwystro ymateb i argyfyngau; ac mae angen lefelau uwch o awtomeiddio
- Mae ymateb effeithlon i'r pandemig a'r amrywiadau sy'n peri pryder (VOC) yn cael ei herio gan ailddefnyddiadwyedd cyfyngedig y data genomig sylfaenol sydd ar gael, oherwydd darparu metadata cyfyngedig
- Bydd dull amlddimensiwn wedi'i ddiffinio ymlaen llaw i'w fabwysiadu'n helaeth i drefnu data genomig critigol yn cael ei baratoi ar gyfer y pandemig nesaf
- Mae gwledydd ledled y byd wedi tynhau cyfyngiadau trawsffiniol ac mae WHOwedi argymell y canlynol o ran gwledydd:
  - ✓ Ni ddylai fod angen prawf o frechu gan deithwyr sy'n dod i mewn
  - ✓ Dylid cymryd dull cydgysylltiedig ar sail tystiolaeth
  - ✓ Sicrhau bod awdurdodau iechyd yn gweithio'n agos gyda'r sector trafnidiaeth a theithio
  - ✓ Blaenoriaethu teithwyr hanfodol ac osgoi'r holl deithio nad yw'n hanfodol

### Effaith seicolegol COVID-19 a blinder y cyfnod clo:

- Mae pandemig a mesurau COVID-19 wedi arwain at ganlyniadau seicolegol tymor byr a thymor hir, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd negyddol, gan gynnwys ymddygiad hunanladdol
- Gwaethygir effeithiau seicolegol wrth i achosion newydd gynyddu ynghyd â gwybodaeth annigonol sy'n peri gorbryder gan y cyfryngau
- Gall mesurau iechyd cyhoeddus gael eu peryglu gan orbryder annormal o uchel
- Gall gwybodaeth annigonol am iechyd y cyhoedd fod yn straen sylweddol a gallai arwain at ddryswch ynghylch pwrpas neu bwysigrwydd mesurau
- Gall oedolion hŷn, yn enwedig y rhai â phroblemau iechyd meddwl, ddod yn fwy gorbryderus, yn ddig, dan straen, cynhyrfus a thawel

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 18fed Chwefror 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Effaith hirdymor gweithio o bell ar iechyd:

- Mae gweithio gartref wedi bod yn gysylltiedig ag amryw o risgiau iechyd y cyhoedd (anfwriadol), yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol, y mae COVID-19 wedi dylanwadu arnynt (neu y gallai fod wedi dylanwadu arnynt).
- Gall effeithiau negyddol posibl gynnwys materion iechyd meddwl a chorfforol, sy'n gysylltiedig â chydbwysedd rhwng teulu a gwaith, ynysu cymdeithasol, neu ofod/offer gweithio annigonol
- Mae effeithiau cadarnhaol posibl, oherwydd diffyg/llai o gymudo, yn gysylltiedig â'r unigolyn a'r amgylchedd
- Mae dynion a menywod yn profi gweithio o bell yn wahanol, gyda menywod yn gyffredinol yn profi ac yn adrodd am ganlyniadau mwy negyddol na dynion

### Rhagfynegi'r dyfodol a chynllunio senarios:

- Mae cyfle i ddatblygu systemau addysgol ymatebol ystwyth, gydag amrywiadau lluosog ar draws senarios 'esblygiadol', yn ogystal â senarios 'chwyldroadol'

### Adferiad cynaliadwy o COVID-19:

- Mae pandemig COVID-19 wedi pwysleisio'r angen am adferiad trawsnewidiol sy'n ailadeiladu systemau iechyd, cymdeithasol ac economaidd i fod yn gynaliadwy, yn gynhwysol ac yn wyrddach
- Mae llawer o wledydd yn symud o weithredu yn ôl yr arfer, gan anelu at arloesi a trawsnewid gyda ffocws penodol ar gynaliadwyedd ac adeiladu cydnerthedd
- Mae angen i ddylunio a gweithredu trawsnewid gael eu llywio gan ddata deinamig amserol, gwybodaeth ac ymchwil a'u cefnogi gan fuddsoddiad gwarchodedig wedi'i dargedu

### Golwg ar Wlad




18/02/2021
Achosion:
**201,729**
Marwolaethau:
**5,264**

17/02/2021: Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Cymru, Julie James, yn cyhoeddi y bydd y cynllun Taliadau Cymorth Hunan-Ynysu gwerth £500, sydd wedi'i ymestyn tan fis Mehefin 2021, nawr yn agored i geisiadau gan bobl ag incwm personol o lai na £500 yr wythnos a'r rhai ar Dâl Salwch Statudol Sylfaenol y gofynnwyd iddynt hunan-ynysu gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Amddiffyn, Ap GIG COVID-19 neu leoliad addysg eu plentyn

Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 4ydd Mawrth 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Trosglwyddiad COVID-19 mewn ysbytai:

- Ymhlith y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y risg o heintiau nosocomaidd mae defnydd PPE effeithiol, systemau awyru ysbytai, cyfathrebu staff rheng flaen, a phrosesau ac ymyriadau effeithiol i nodi, monitro a lliniaru yn erbyn trosglwyddo.
- Mae gwahanol fesurau lliniaru wedi'u gweithredu ar draws gwledydd, gan gynnwys atebion arloesol i gynyddu capasiti ymchwydd mewn unedau gofal dwys

### Effaith COVID-19 ar weithgarwch corfforol:

- Mae gweithgarwch corfforol (PA) wedi lleihau yn ystod cyfnodau clo COVID-19; ac mae ymddygiad eisteddog wedi cynyddu gyda chanlyniadau negyddol hirdymor posibl ar iechyd
- Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi arwain at effeithiau cadarnhaol dros dro ar ansawdd aer, gyda gostyngiad sylweddol mewn allyriadau llygryddion ledled Ewrop

### COVID-19 a thlodi bwyd:

- Mae'r rhai mwyaf agored i niwed yn cynnwys y rhai sydd eisoes yn agored i amddifadedd bwyd/dietegol cyn y pandemig; ymfudwyr a phobl a chymunedau wedi'u dadleoli
- Mae mesurau lliniaru yn cynnwys lleihau tlodi plant; casglu a dadansoddi data yn well; gwrthweithio gwahaniaethu tuag at bobl sy'n symud, a hyrwyddo eu cynnwys

### Effaith COVID-19 ar ardaloedd gwledig:

- Mae ardaloedd gwledig wedi cael eu heffeithio'n arbennig gan COVID-19 oherwydd gwendidau demograffig, daearyddol, economaidd-gymdeithasol a gofal iechyd penodol
- Mae mesurau lliniaru gwledig wedi'u targedu yn cynnwys buddsoddi mewn seilweithiau digidol a gofal iechyd, a chefnogi prosiectau arloesi cymdeithasol ac undod

### Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

### Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

Achosion Covid-19



Adroddiad Peilot
Adroddiad 3
Adroddiad 4
Adroddiad 5
Adroddiad 6
Adroddiad 7
Adroddiad 8
Adroddiad 9
Adroddiad 10
Adroddiad 11
Adroddiad 12
Adroddiad 13
Adroddiad 14
Adroddiad 15
Adroddiad 16
Adroddiad 17
Adroddiad 18
Adroddiad 19
Adroddiad 20
Adroddiad 21
Adroddiad 22
Adroddiad 23
Adroddiad 24
Adroddiad 25
Adroddiad 26

# Sganio'r Gorwel Rhyngwladol 18fed Mawrth 2021

## Canfyddiadau Allweddol

### Beichiogrwydd a COVID-19

- Mae trosglwyddiad COVID-19 o fenyw i'w babi cyn/yn ystod genedigaeth yn anghyffredin
- Ar wahân i enedigaeth cyn amser, nid oes tystiolaeth bod haint COVID-19 yn cael effaith andwyol ar y ffetws nac ar ganlyniadau newyddenedigol
- Nid oes tystiolaeth ddigonol i asesu effeithiolrwydd a diogelwch brechlynnau COVID-19 mewn cleifion beichiog a'u babanod newydd-anedig, ond nid yw data cynnar yn datgelu pryderon diogelwch
- Mae'r safbwyntiau ar frechu menywod beichiog â COVID-19 yn amrywio ar draws gwledydd
- At ei gilydd, mae argymhellion yn nodi y gallai menywod beichiog gael eu brechu ar ôl ymgynghori â'u darparwr gofal iechyd, os ydynt mewn risg uwch

### Trosglwyddiad COVID-19 mewn archfarchnadoedd

- Gall cael nifer fwy o bobl mewn archfarchnadoedd, a chiwio, gynyddu'r tebygolrwydd o haint i gwsmeriaid a gweithwyr
- Ers dechrau'r pandemig, mae gwledydd wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau trosglwyddiadau COVID-19 mewn archfarchnadoedd, megis cyfyngu ar nifer y cwsmeriaid; newidiadau i gynllun y siop; a gorfodi gorchuddion wyneb gorfodol
- Gall systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru (HV AC) fod â rôl ategol wrth leihau trosglwyddiad COVID-19 mewn lleoedd dan do

### Diweddariad epidemiolegol COVID-19

- Yn ddiweddar mae rhai gwledydd wedi profi uchafbwynt mewn achosion COVID-19 a marwolaethau
- Mae gan Japan gyfradd achosion a marwolaethau COVID-19 sylweddol is

## Golwg ar Wlad




Lawrlwytho'r Adroddiad

## Llinell Amser a Diweddariad Epidemiolegol yng Ngymru

### Achosion Covid-19



Mae'r adroddiadau Sganio'r Gorwel a Dysgu Rhyngwladol yn cael eu datblygu gan y Tîm Iechyd Rhyngwladol yng Nghanolfan Gydweithredu WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Arweinydd gweithredol a Chyfarwyddwr WHO CC: Mark A Bellis

Arweinydd iechyd rhyngwladol a Dirprwy Gyfarwyddwr WHO CC: Mariana Dyakova

Ymgynghorydd iechyd y cyhoedd: Claire Beynon

Awduron: Charlotte Bowles, Anna Stielke, James Allen, Abigail Instone, Lauren Couzens

Cyfranwyr: Andrew Cotter-Roberts, Mischa van Eimeren, Benjamin Bainham

Dyluniwyd gan: Jenney Creative